# PARTI UNSAIN 2025
# MYND I'R FFAIR

Mynd ar wib, 'nôl a 'mlaen,
Lan a lawr, Chwerthin mawr,
Dweud 'run gair – cyn,
Mynd ar wib, 'nôl a 'mlaen,
Lan a lawr, 'na hwyl y ffair.

Waltzers chwil a bumping cars a'r olwyn fawr,
Fry'n yr awyr, 'nhraed i lan a 'mhen i lawr,
O mae'n hwyl, Mam mae'n hwyl yn y ffair.
Mynd ar wib, 'nôl a 'mlaen,
Lan a lawr, 'na hwyl y ffair.

Afal taffi a marshmallows a dwy reid,
'Mhen i'n troi a 'mol i'n corddi a rhoi naid,
O mae'n hwyl, Mam mae'n hwyl yn y ffair.
Mynd ar wib, 'nôl a 'mlaen,
Lan a lawr, 'na hwyl y ffair.

Prynu byrgyr, candi fflòs a chôc neu ddau,
Wedyn ras am un reid arall cyn 'ddi gau.
O, dwi'n sâl, Mam dwi'n sâl, yn y ffair,
O dwi'n sâl, Mam dwi'n sâl, yn y ffair.
Yyyhhh.